*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Mehefin 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Darparu fersiwn ddrafft o Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2025-26 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), a deddfwriaeth berthnasol Cymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3. Yn ystod 2025–26, mae llywodraethiant wedi'i gryfhau ymhellach, gan gynnwys goruchwyliaeth uwch o risg, perfformiad a chyflawni rhaglenni, a sefydlu Bwrdd Diwylliant mewn ymateb i'r adolygiad gan Crest Advisory.

4. Mae set ganolbwyntiedig o gamau gwella ar gyfer 2026–27 wedi'u nodi i sicrhau parhau i gyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg, gofynion arolygu a'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub

**ARGYMHELLIAD**

5. Argymhellir bod yr Aelodau yn:

   **i)** **Nodi cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26; ac**

   **ii)** **Yn cymeradwyo darparu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26 i Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

**CEFNDIR**

6. Ers 2010/11 mae wedi bod yn ofynnol i bob corff llywodraeth leol, gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r cyfrifon statudol.

7. Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ledled y sefydliad.

**GWYBODAETH**

8. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos;

    i. Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
    ii. Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano yn briodol;
    iii. Bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt sydd er budd pobl leol

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cefnogi amcanion llesiant yr Awdurdod drwy sicrhau bod trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a gwneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chyflawni canlyniadau hirdymor. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau cyllidebol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adrodd yn caniatáu i'r Awdurdod ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch annisgwyl o ran digwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), a deddfwriaeth berthnasol Cymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Dim goblygiadau wedi'u nodi. |
| Risgiau | Mae'r holl fesurau rheolaeth uchod yn cyfrannu at reoli, a lleihau'r risgiau a nodwyd, a llywodraethiant y rheolaethau sydd ar waith. |